# Crefftau Mewn Oes o Newid: Adroddiad cryno

Paratowyd ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru

Adroddiad cryno terfynol
Ionawr 2012

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Crafts Council

Creative Scotland
Alba | Chruthachail

Craft Northern Ireland

BOP Consulting



# Cynnwys

Diolchiadau ........ 1

Rhagair ........ 2

1. Crynodeb Gweithredol ........ 3

**1.1** Canfyddiadau'r ymchwil ........ 3

1.2 Gwneuthurwyr y DU a'u busnesau ........ 3

1.3 Proffiliau o'r mathau o wneuthurwyr ........ 4

1.4 Maint cyffredinol y sector ........ 5

1.5 Busnesau manwerthwyr ........ 5

1.6 Addysgwyr, awduron a churaduron ........ 6

1.7 Proffil demograffig ymatebwyr y DU ........ 6

1.8 Themâu ehangach ........ 6

1.9 Casgliadau ........ 7

2. Cyflwyniad ........ 10

2.1 Strwythur yr adroddiad ........ 10

2.2 Cyd-destun crefftau ........ 10

3. Crefftwyr proffesiynol yn y DU a'u busnesau ........ 11

3.1 Proffil demograffig ymatebwyr y DU ........ 11

3.2 Gwneuthurwyr yn y DU a'u busnesau ........ 13

3.3 Busnesau manwerthwyr ........ 16

3.4 Addysgwyr awduron a churaduron ........ 16

3.5 Maint cyffredinol y sector ........ 17

3.6 Proffiliau o'r mathau o wneuthurwyr ........ 17

4. Ffocws ar themâu ehangach ........ 20

4.1 Sut y mae'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol yn dylanwadu ar ymarfer yn y sector crefftau? ........ 20

4.2 Sut mae'r ddadl rhwng y byd-eang a'r lleol yn dod i'r amlwg yn y sector? ........ 21

4.3 Sut y mae materion cynaliadwyedd yn effeithio ar y sector? ..... 22

4.4 Newidiadau economaidd diweddar yn y sector ........ 23

5. Gwneuthurwyr: Cymru ........ 25

5.1 Proffil demograffig ........ 25

5.2 Yr ymatebwyr i'r arolwg ........ 25

5.3 Proffiliau o'r mathau o wneuthurwyr ........ 26

5.4 Busnesau gwneuthurwyr ........ 27

5.5 Materion ehangach yn y sector crefftau ........ 28

Clawr: 'Traces' gan Ainsley Hillard, Oriel Mission. Ffotograff gan Jason Ingram, drwy garedigrwydd yr artist.

# Diolchiadau

Cwblhawyd y prosiect hwn gan Josephine Burns, Chris Gibbon a Cristina Rosemberg o BOP Consulting, a'u cydymaith ymchwil, Dr Karen Yair.

Mae BOP Consulting a Dr Yair yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd ran yn y gwaith hwn am eu cyfraniadau. Y benodol hoffem ddiolch i grŵp llywio'r prosiect am ei gyfraniad a'i gymorth gwerthfawr drwy gydol yr ymchwil:

- Dr Helen Bennett, Rheolwraig Portffolio, Creative Scotland
- Rachel Brockhurst, Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth, Y Cyngor Crefftau
- Nathalie Camus, Uwch Swyddog y Celfyddydau Cymhwysol, Cyngor Celfyddydau Cymru
- Caroline Docherty, Rheolwr Partneriaeth Portffolio, Creative Scotland
- Alistair Evans, Rheolwr Partneriaeth Ddatblygu, Creative Scotland
- Rosy Greenlees, Cyfarwyddwr Gweithredol, Y Cyngor Crefftau
- Amanda Jones, Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol, Y Cyngor Crefftau
- Sarah Jones, Swyddog Ymchwil, Cyngor Celfyddydau Cymru
- Joe Kelly, Cyfarwyddwr, Craft Northern Ireland
- Beatrice Mayfield, Rheolwr Datblygu Gwneuthurwyr, Y Cyngor Crefftau
- Yr Athro Sara Selwood, Ymgynghorydd Annibynnol
- Helena Ward, Creative Scotland
- Claire West, Cyfarwyddwr Rhaglenni, Y Cyngor Crefftau

# Rhagair

Rhagair i'r prif adroddiad yw hwn ac, felly, mae wedi'i lofnodi gan bob un o'r pedwar corff comisiynu. Crynodeb o'r prif adroddiad yw'r ddogfen hon, ac mae wedi'i pharatoi ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru.

Arolwg mawr o grefftau cyfoes ar ddechrau ail ddegawd yr 21ain ganrif yw *Crefftau Mewn Oes o Newid*. Mae'n edrych ar le crefftau yn yr economi greadigol a phatrymau gwaith gwneuthurwyr a chrefftwyr proffesiynol eraill. Mae hefyd yn edrych ar nifer o faterion cynyddol bwysig, gan gynnwys gwerth sgiliau crefft a gwybodaeth am grefftau mewn economi lle mae sgiliau ar frig yr agenda; effaith technoleg ddigidol ar sector lle y gellid ystyried bod pethau wedi'u 'gwneud â llaw' yn ofyniad *de facto*; yr angen cynyddol am sensitifrwydd amgylcheddol; ac ailbrisio gwahanol elfennau bywydau proffesiynol mewn ymateb i'r newid tuag at yrfaoedd portffolio yn yr 21ain ganrif.

Er ei fod yn adeiladu ar arolygon blaenorol a gynhaliwyd dros y ddau ddegawd diwethaf, mae *Crefftau Mewn Oes o Newid* yn cynnwys dwy elfen gwbl newydd ac arwyddocaol mewn perthynas ag arolygon o'r sector crefftau cyfoes yn y DU. Dyma'r arolwg cyntaf i'w gynnal ar yr un pryd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, sy'n creu proffil o'r DU gyfan ac, ar yr un pryd, yn caniatáu i elfennau cenedlaethol tebyg a gwahaniaethau cenedlaethol gael eu gweld yn glir. Er ei fod yn canolbwyntio ar y gwneuthurwyr sydd wrth wraidd pob crefft, mae hefyd yn wahanol i arolygon blaenorol gan ei fod yn edrych ar guraduron, perchnogion orielau, manwerthwyr, ysgolheigion, addysgwyr ac awduron sydd oll yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddylanwadu ar natur y sector crefftau yn awr ac yn y dyfodol.

Comisiynwyd BOP Consulting i gynnal yr arolwg gan bedwar partner - y Cyngor Crefftau, Creative Scotland, Cyngor Celfyddydau Cymru a Craft Northern Ireland - ac mae'n darparu cyfoeth o wybodaeth ac ystadegau. Dengys fod y maes crefftau'n parhau i ddatblygu ac esblygu mewn ymateb i'r byd o'i gwmpas, gan adweithio i newidiadau economaidd, diwylliannol, technolegol a chymdeithasol wrth iddynt ddigwydd, ond gan gadw ei werthoedd craidd a'i ddiben.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a data cadarn yn hollbwysig er mwyn llywio polisi i gefnogi'r sector crefftau, a hyderwn y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol i lunwyr polisïau, cyllidwyr, sefydliadau masnach a'r cyfryngau, yn ogystal â chrefftwyr proffesiynol.

Diolchwn i'r gwneuthurwyr a'r crefftwyr proffesiynol a gymerodd ran yn yr arolwg sy'n sail i'r adroddiad hwn am roi o'u hamser a'u hewyllys da.




Rosy Greenlees, Cyfarwydwr Gweithredol, y Cyngor Crefft



Andrew Dixon, Prif Weithredwr, Creative Scotland



Nick Capaldi, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru



Joe Kelly, Cyfarwyddwr, Craft Northern Ireland

# 1. Crynodeb Gweithredol

Ar ddechrau 2011 comisiynwyd BOP Consulting i gynnal astudiaeth mapio ac effaith o'r sector crefftau cyfoes. Mae'r adolygiad - *Crefftau Mewn Oes o Newid* - yn adolygu'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd, ac yn ymchwilio i'w ganfyddiadau. Mae'n edrych ar broffil crefftwyr a'u busnesau, ac yn ystyried y ffyrdd y maent yn newid. Mae'r crynodeb hwn, a gynhyrchwyd ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, yn defnyddio'r wybodaeth sydd yn yr adroddiad hwnnw er mwyn edrych yn fanylach ar y data sy'n ymwneud yn benodol â Chymru.

Cymerodd y gwaith ymchwil sawl ffurf: arolwg llenyddiaeth, cyfres o grwpiau ffocws, cyfweliadau gydag arbenigwyr, cyfarfodydd gyda grŵp llywio, ac arolwg dros y ffôn o bron 2,000 o wneuthurwyr, manwerthwyr, addysgwyr a churaduron. Bu'r arolwg llenyddiaeth a'r ymchwil ansoddol (grwpiau ffocws a chyfweliadau) o gymorth i nodi themâu penodol yr ymchwiliwyd iddynt drwy'r arolwg dros y ffôn.

## **1.1** Canfyddiadau'r ymchwil

Awgryma'r arolwg bod strwythur y sector crefftau cyfoes, ar lawer ystyr, yn gymharol sefydlog. Busnesau bach, sefydledig yw'r elfen amlycaf yn y sector. Ni fu fawr o newid yn nodweddion gwneuthurwyr ers dechrau'r ganrif hon, ond mae'r ymarfer yn newid i adlewyrchu posibiliadau newydd technoleg ddigidol a phryderon amgylcheddol a moesegol. Dywedodd manwerthwyr bod eu gwerthiannau, at ei gilydd, wedi bod yn eithaf cyson dros y tair blynedd diwethaf. Roedd y manwerthwyr a'r gwneuthurwyr yn lled ffyddiog ynghylch y dyfodol adeg yr arolwg (Mehefin/Gorffennaf 2011).

Serch hynny, mae'r sector crefftau cyfoes yn amlwg yn wynebu heriau yn y blynyddoedd i ddod. Cyhyd ag y mae'n bosibl dehongli, o gofio'r gwahaniaethau methodolegol rhwng yr arolwg hwn a'r rhai blaenorol, mae incwm crynswth gwneuthurwyr sy'n gysylltiedig â chrefftau wedi lleihau rhywfaint yn ddiweddar. Mae gwerthiannau drwy'r mwyafrif o sianeli gwerthu 'y byd go iawn' wedi lleihau, ac er bod gwerthiannau ar-lein wedi cynyddu, maent wedi gwneud hynny o sylfaen fach, a dim ond yn rhannol y maent wedi gwneud iawn am y colledion mewn mannau eraill. Ymddengys y bu cynnydd yn y nifer sy'n gweithio'n rhan amser, ond mae'r gweithwyr hynny'n ennill mwy na'r rhai a oedd yn gweithio'n rhan amser mewn arolygon blaenorol. Mae'r elw net yn parhau i fod yn eithaf bach (dywedodd mwy na hanner y gwneuthurwyr eu bod yn cynhyrchu llai na £5,000 y flwyddyn), ac mae lleiafrif arwyddocaol y gwneuthurwyr yn teimlo nad oes ganddynt y sgiliau busnes cyffredinol sydd eu hangen arnynt i dyfu, yn arbennig sgiliau marchnata. Er bod gan fwyafrif helaeth y gwneuthurwyr ffynonellau incwm eraill sy'n gysylltiedig â chrefftau ac eithrio dylunio a gwneud gwrthrychau, heblaw am addysgu, cymharol fach yw cyfraniad y rhain tuag at incwm crynswth. Mae'r gwerthiannau yn y sector crefftau'n parhau i fod yn lleol gan fwyaf, a phrin yw'r allforion.

## 1.2 Gwneuthurwyr y DU a'u busnesau

Yn yr adran hon ymchwilir i brif nodweddion gwneuthurwyr a'u harferion busnes o bob cwr o'r DU. Canfu'r arolwg dros y ffôn y wybodaeth ganlynol:

Addysg**:** Roedd gan 61% o wneuthurwyr yn y DU radd mewn celf, crefft neu ddylunio, ac roedd gan 24% gymwysterau eraill yn y meysydd hyn fel prentisiaethau ffurfiol, cymwysterau Safon Uwch/Lefel O/TGAU neu addysg i oedolion. Dim ond 15% nad oedd ganddynt unrhyw gymwysterau'n gysylltiedig â chrefftau.

Ail yrfa**:** Roedd crefftau yn ail yrfa i hanner y gwneuthurwyr (50%).

Math o fusnes: Mae 88% o wneuthurwyr yn unig fasnachwyr**.**

Roedd yr incwm crynswth cyfartalog yn 2010 (gan gyfrif incwm sy'n gysylltiedig â chrefftau ac incwm arall gyda'i gilydd) yn £23,485.

Dengys Ffigur 1 yr amrywiol ffrydiau incwm crynswth ar gyfer gwneuthurwyr 'cyffredin'. Mae'r cyfuniad o drosiant yn sgil gwerthu gwrthrychau ac incwm o ffynonellau eraill sy'n gysylltiedig â chrefftau yn cyfrif am 84% o incwm crynswth, ac mae ffynonellau nad ydynt yn gysylltiedig â chrefftau'n cyfrif am yr 16% sy'n weddill.

Gan edrych ar y ddwy elfen o incwm crynswth yn eu tro:


1. Roedd yr incwm cyfartalog yn gysylltiedig â chrefftau yn £19,827. Deilliodd hyn o:

   – Drosiant cyfartalog drwy werthu crefftau cyfoes: £16,572

   – Incwm cyfartalog o weithgareddau eraill yn gysylltiedig â chrefftau: £3,255. Y ffynhonnell fwyaf ar gyfer incwm o'r fath oedd addysgu'n gysylltiedig â chrefftau.

Incwm cyfartalog o weithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â chrefftau: £3,658. Mae'r categori hwn yn cynnwys incwm o ffynonellau fel addysgu nad yw'n gysylltiedig â chrefftau, buddsoddiadau a phensiynau.

Ffigur 1 Incwm crynswth cyfartalog gwneuthurwr, 2010




Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Yn ogystal, amcangyfrifodd y gwneuthurwyr elw net cyfartalog o bob gweithgaredd yn gysylltiedig â chrefftau ar wahân, sef £6,231. Mae elw net yn deillio o drosiant, llai costau'r gwerthiannau (fel y deunyddiau a ddefnyddiwyd i greu'r gwrthrychau), llai costau eraill fel biliau ynni, gwaith trwsio a chynnal a chadw, rhent a chyflogau staff.

## 1.3 Proffiliau o'r mathau o wneuthurwyr

Fodd bynnag, gall ffigurau cyfartalog guddio cymaint o wybodaeth ag y maent yn ei datgelu. Er mwyn mynd dan yr wyneb, creodd BOP Consulting bedwar proffil o wneuthurwyr, yn seiliedig ar eu haddysg yn y sector crefftau ac ai gwneud crefftau yw eu gyrfa gyntaf ai peidio.

Blwch 1: Pedwar proffil o wneuthurwyr
Noder bod y diffiniadau hyn yn berthnasol i'r adroddiad hwn yn benodol; gallai awduron eraill ddefnyddio'r termau hyn yn wahanol mewn cyd-destunau eraill.

Gyrfawyr: y rhai sy'n ymrwymedig i'r syniad o wneud crefftau fel gyrfa, ac sy'n dechrau eu busnesau yn fuan ar ôl cwblhau eu gradd gyntaf (neu eu hail radd) mewn pynciau sy'n gysylltiedig â chrefftau.

Crefftwyr: nid oes ganddynt radd academaidd yn y pwnc ond gwneud crefftau yw eu gyrfa gyntaf serch hynny.

Newidwyr gyrfa: y rhai sy'n dechrau eu bywyd gwaith mewn gyrfaoedd eraill cyn dewis proffesiwn yn y sector crefftau, yn aml pan fyddant yn ganol oed.

Dychwelwyr: gwneuthurwyr a gafodd hyfforddiant ym meysydd celf, crefft neu ddylunio, ond a dilynodd lwybr gyrfa arall cyn 'dychwelyd' i'r byd crefftau'n ddiweddarach.

Dadansoddwyd y pedwar proffil hyn, a gwelwyd bod gwahaniaethau penodol rhwng y pedwar grŵp. 'Gyrfawyr– y rhai a chanddynt radd yn gysylltiedig â chrefftau ac sy'n dewis y sector crefftau fel gyrfa gyntaf – oedd y grŵp mwyaf, sef 38% o wneuthurwyr (gweler Ffigur 2).

Ffigur 2  Proffiliau o'r mathau o wneuthurwyr

| | | Cymwysterau crefftau | |
|---|---|---|---|
| | | Gradd gyntaf neu ail radd | Cymhwyster arall neu ddim cymhwyster |
| Gwneud crefftau Cyfoes fel gyrfa gyntaf | Oes | 'Gyrfawyr' (38.4%) | 'Crefftwyr (11.7%) |
| | Nac oes | 'Dychwelwyr' (22.4%) | 'Newidwyr gyrfa' (27.5%) |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011) yn seiliedig ar 1,847 o ymatebion

Awgryma'r dadansoddiad fod y sector yn cael ei arwain gan yrfawyr mewn sawl ystyr, sy'n iau ac sy'n ennill mwy na'r cyfartaledd yn y sector crefftau, sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd a'u defnyddio, a chynhyrchu gwaith sy'n fwy tebygol o gael ei allforio neu ei brynu gan gasgliadau cyhoeddus o gymharu â'r grwpiau eraill.

## 1.4 Maint cyffredinol y sector

Nid yw union faint y sector gwneud crefftau cyfoes yn hysbys. Mae nifer o ffactorau'n ei wneud yn anodd ei ddiffinio, yn bennaf oherwydd bod nifer o fusnesau crefftau'n rhy fach i ymddangos yn ystadegau'r llywodraeth. Cyfrifodd BOP Consulting ei amcangyfrif o nifer y busnesau gwneud crefftau cyfoes yn 2011 drwy 'driongli' y cronfeydd data a ddarparwyd gan y partneriaid comisiynu a'r gyfradd ymateb i'r arolygon.

Amcangyfrif o nifer y busnesau gwneud crefftau cyfoes yn y DU: 23,050.

Mae lluosi nifer y busnesau â'r incwm cyfartalog sy'n gysylltiedig â chrefftau yn rhoi amcangyfrif o £457m o gyfanswm incwm ar gyfer pob busnes gwneud crefftau cyfoes. O gymharu â diwydiannau creadigol eraill, roedd cyfanswm y refeniw ar gyfer theatrau'r West End yn Llundain yn £512m yn 2010[1], ac roedd y gwariant ar lawrlwytho cerddoriaeth yn y DU yn £316m[2] yn yr un flwyddyn.

### Cyfanswm yr incwm sy'n gysylltiedig â chrefftau fesul gwlad

Gellir dadansoddi'r amcangyfrif hwn o gyfanswm incwm fesul gwlad, ar sail yr amcangyfrif o nifer y busnesau:

- Lloegr: £339m o 17,150 o fusnesau
- Yr Alban: £70m o 3,350 o fusnesau
- Cymru: £28m o 1,500 o fusnesau
- Gogledd Iwerddon: £20m o 1,050 o fusnesau

Roedd niferoedd y gwneuthurwyr a gymerodd ran yn yr arolwg dros y ffôn yn ddigon mawr i sicrhau canlyniadau cadarn ar lefel pedair gwlad y DU. Dangosodd y dadansoddiad mai prin yw'r gwahaniaethau ystadegol rhwng gwneuthurwyr yn y pedair gwlad, er bod mân amrywiadau.

Gwneuthurwyr yng Nghymru
Roedd gwneuthurwyr yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn ddynion, ac roedd ganddynt y cyfartaledd oedran uchaf o blith y pedair gwlad. Cymru oedd yr unig wlad lle yr oedd y 'newidwyr gyrfa' yn cynrychioli'r grŵp mwyaf o wneuthurwyr - yn y tair gwlad arall, 'gyrfawyr' oedd y grŵp mwyaf. Roedd nifer yr unig fasnachwyr ychydig yn is yng Nghymru na chyfartaledd y DU.

## 1.5 Busnesau manwerthwyr

[1] Ffigur o Gymdeithas Theatrau Llundain, fel y dyfynnwyd yn http://www.thestage.co.uk/news/newsstory.php/31087/theatreland-enjoys-golden-age-despite-ash- fel ar 14 Hydref 2011

[2] Ffigur o BPI Annual Yearbook 2010

Roedd y sampl o fanwerthwyr yn llawer llai ac felly rhaid trin y canfyddiadau fel rhai dangosol yn hytrach na rhai ystadegol arwyddocaol. Roedd y manwerthwyr yn dod o bob cwr o'r DU.

Roedd y manwerthwyr wedi bod yn masnachu am gyfartaledd o 19.7 o flynyddoedd, ac y cyflogi 4.5 aelod o staff ar gyfartaledd. O blith y sampl, roedd 44% yn gwerthu dim ond gwrthrychau crefftau cyfoes, ac roedd 56% yn gwerthu pethau eraill hefyd. Ymysg y grŵp olaf, gwrthrychau celfyddyd gain (paentiadau a cherfluniau) oedd y nwyddau mwyaf poblogaidd nad oeddent yn grefftau, yna ddeunyddiau ysgrifennu ac anrhegion, a phrintiau.

## 1.6 Addysgwyr, awduron a churaduron

Edrychodd yr ymchwil ar addysgwyr, awduron a churaduron hefyd. Unwaith eto, roedd maint y sampl yn llawer llai nag ar gyfer gwneuthurwyr, ac roeddent yn dod o bob cwr o'r DU.

Mae addysgwyr, awduron a churaduron mewn nifer o achosion yn dilyn gyrfaoedd portffolio lle mae eu hincwm yn deillio o gymysgedd o weithgareddau yn bennaf ym maes crefftau neu feysydd â chysylltiad agos â chrefftau (celf a dylunio).

- Roedd y rhan fwyaf o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw (87%) yn dysgu'n anffurfiol, o leiaf gyfran o'r amser, fel arfer mewn sefydliad addysg uwch.
- Roedd bron 20% o'r ymatebwyr yn addysgu cymysgedd eang o bobl yn anffurfiol mewn lleoliadau fel canolfannau cymunedol, orielau a cholegau.
- Roedd bron 20% yn cael incwm drwy ysgrifennu am grefftau, a hynny'n llawrydd gan amlaf, tra bod 11% yn cael incwm drwy weithio fel curaduron.

## 1.7 Proffil demograffig ymatebwyr y DU

Dengys proffil demograffig pob ymatebydd (h.y. gwneuthurwyr, manwerthwyr, addysgwyr, awduron a churaduron) fod crefftau cyfoes yn broffesiwn amrywiol ar lawer ystyr. Er bod canran y gweithwyr proffesiynol du neu Asiaidd yn parhau i fod yn isel, mae llawer iawn o fenywod yn y sector, ac mae'r gyfran sydd wedi eu geni dramor a chyfran y bobl â dyslecsia/anabledd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Rhyw: At ei gilydd, roedd 69% o'r ymatebwyr yn fenywod a 31% yn ddynion.
- Oedran: Amcangyfrifir mai oedran cyfartalog yr ymatebwyr yw 48.7 oed.
- Dyslecsia ac Anabledd: Dywedodd 11.5% o ymatebwyr bod ganddynt ddyslecsia, dywedodd 4.1% eu bod yn anabl (heb gynnwys dyslecsia). (Roedd y ddau grŵp hyn yn cynnwys 0.5% a ddywedodd bod ganddynt ddyslecsia ac anabledd.)
- Ethnigrwydd: Dywedodd 81.0% eu bod yn Wyn Prydeinig, dywedodd 2.4% eu bod yn Wyn Gwyddelig, roedd 10.0% yn Wyn Arall (categori sy'n cynnwys llawer o Ewropeaid a phobl o Ogledd America), ac roedd 3.5% o gefndiroedd du, Asiaidd, cymysg ac Arall.
- Wedi'u Geni Dramor: Roedd 12% o'r ymatebwyr wedi'u geni dramor, a'r Unol Daleithiau, yr Almaen, De Affrica, Gweriniaeth Iwerddon ac India oedd y lleoedd y soniwyd amdanynt fynychaf fel mannau tu allan i'r DU lle y ganwyd yr ymatebwyr.

## 1.8 Themâu ehangach

Mae gan y sector crefftau cyfoes ei nodweddion penodol ei hun, ond ni ellir edrych ar y sector ar ei ben ei hun. Fel yr awgryma teitl y prif adroddiad, mae'r oes bresennol yn un sy'n newid yn gyflym: o ran yr economi, yr amgylchedd a diwylliant. Ymchwiliwyd i effaith y newidiadau ehangach hyn ar grefftau yn yr arolwg llenyddiaeth a'r trafodaethau gyda'r grwpiau ffocws. Deilliodd pedair thema o'r trafodaethau hyn, a fu o gymorth i lunio'r cwestiynau ar gyfer yr arolwg dros y ffôn, sef:

- Sut y mae'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol yn dylanwadu ar ymarfer yn y sector crefftau?

Roedd bron hanner (57%) y gwneuthurwyr yn defnyddio technoleg ddigidol yn eu hymarfer neu wrth gynhyrchu, a'r rhan fwyaf o'r rhain yn gwneud hynny'n aml neu bob amser.

Dywedodd gwneuthurwyr eu bod wedi gweld rhywfaint o ostyngiad yn eu prif sianeli gwerthu nad oeddent yn sianel ar-lein, yn arbennig werthiannau mewn orielau ac arddangosfeydd, a symudiad tuag at werthiannau ar-lein, er

bod y rhain yn parhau i fod yn gymharol fach. Roedd tua 30% o wneuthurwyr yn gwerthu drwy eu gwefannau eu hunain, ond dim ond 3% a oedd yn gwerthu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

- Sut y mae'r ddadl rhwng y byd-eang a'r lleol yn dod i'r amlwg yn y sector?

Mae mwyafrif y gwneuthurwyr yn gwerthu i farchnadoedd domestig. Nid yw dros 70% o wneuthurwyr yn allforio eu cynhyrchion; ymysg y rhai sy'n gwneud hynny, mae allforion yn cyfrif am bron 20% o'r trosiant.

Mae'r manwerthwyr hwythau yn gwasanaethu marchnadoedd domestig yn bennaf. Roedd lleiafrif mawr o fanwerthwyr yn gwerthu gwaith gan wneuthurwyr tramor, ond dim ond cyfran fach o'u gwerthiannau cyffredinol (6%) oedd hynny. Roedd ychydig yn llai na 10% o werthiannau manwerthwyr yn werthiannau i gwsmeriaid o'r tu allan i'r DU.

- I ba raddau y mae cynaliadwyedd yn effeithio ar ymarfer yn y sector?

Roedd ychydig yn llai na thraean (31%) o wneuthurwyr wedi newid eu hymarfer yn y tair blynedd diwethaf mewn ymateb i bryderon amgylcheddol. Y newid mwyaf poblogaidd oedd defnyddio deunyddiau o ffynonellau mwy cynaliadwy neu ffynonellau sy'n fwy amgylcheddol sensitif.

- Sut mae newidiadau economaidd diweddar wedi effeithio ar y sector?

Roedd gwneuthurwyr a manwerthwyr yn lled ffyddiog ynghylch y dyfodol adeg yr arolwg (Mehefin/Gorffennaf 2011). Dywedodd y manwerthwyr (at ei gilydd) bod eu gwerthiannau wedi bod yn gymharol gyson dros y tair blynedd diwethaf.

Roedd y rhan fwyaf o wneuthurwyr yn disgwyl gorfod ymateb i'r hinsawdd economaidd drwy newid eu hymarfer mwyn amrywiol ffyrdd ymhen amser, gan ragweld y byddant yn cyflwyno cynhyrchion newydd ac yn cynyddu'r defnydd o dechnoleg newydd.

## 1.9 Casgliadau

Mae'n amlwg bod y sector crefftau cyfoes yn debygol o ddod dan bwysau o sawl cyfeiriad yn ystod y blynyddoedd i ddod. Adroddiad ymchwil yw *Crefftau mewn Oes o Newid*, ac nid yw'n ceisio gwneud argymhellion polisi neu argymhellion strategol uniongyrchol. Serch hynny, mae'r gwaith ymchwil wedi codi nifer o gwestiynau a materion ar gyfer y dyfodol, y mae'n werth eu trafod yn fanylach.

- Beth fydd y cynnydd mewn technolegau digidol yn ei wneud i'r cysyniad o grefftau?

Mae technolegau digidol wedi bod ar 'orymdaith chwyldroadol' drwy'r diwydiannau creadigol, gan drawsnewid modelau busnesau ar hyd y daith. Mae'r diwydiannau cerddoriaeth, papur newydd, ffotograffiaeth a ffilm wedi cael eu newid yn sylweddol, ac mae hyd yn oed sectorau a oedd yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn llai tebygol o gael eu heffeithio ganddynt, fel cyhoeddi llyfrau, bellach yn newid yn gyflym. Mae'r datblygiadau hyn yn effeithio ar y sector crefftau hefyd. Natur unigryw gwrthrychau crefft sydd wedi'u gwneud â llaw sydd wrth wraidd y proffesiwn, gan adlewyrchu credoau craidd fel pwysigrwydd dilysrwydd a gwerth crefftwaith. Ond os bydd technolegau fel argraffu 3D yn hollbresennol, a'i bod yn bosibl gwneud gwrthrychau unigryw drwy wasgu botwm, beth yw goblygiadau hynny i'r cysyniad o grefft? A fydd y ffiniau rhwng crefftau, celfyddyd gain a dylunio yn mynd yn fwyfwy aneglur o ganlyniad? A yw newid o'r fath yn fygythiad i hunaniaeth crefftau ynteu'n gyfle i gyfnewid syniadau ar draws agendâu artistig ac agendâu ehangach? Beth fydd ystyr bod yn grefftwr proffesiynol yn yr amgylchiadau hyn?

- Beth fydd effeithiau economaidd 'oes y cyni'?

Mae'r heriau y mae economi Prydain yn eu hwynebu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn awgrymu y bydd twf economaidd domestig yn parhau i fod yn araf. Yn fyd-eang, mae'r twf yn debygol o fod yn yr economïau newydd yn bennaf. Mae'r rhan fwyaf o wneuthurwyr yn unig fasnachwyr, ac nid yw'r rhan fwyaf ohonynt yn allforio ar hyn o bryd. Sut y gellid eu hannog a'u cefnogi i ddod o hyd i gyfleoedd dramor? A oes ffyrdd eraill y gall gwneuthurwyr ddefnyddio eu sgiliau arbenigol, eu gwybodaeth am ddeunyddiau a'u profiad o arloesed a datblygu cynnyrch i ennill arian mewn marchnadoedd rhyngwladol?

Gwerthiannau ar-lein yw'r maes twf yn y farchnad ddomestig, er bod hynny o sylfaen fach, ond mae lleiafrif arwyddocaol y gwneuthurwyr yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o sgiliau marchnata (yn cynnwys marchnata digidol). Ar hyn o bryd mae'n well gan lawer o brynwyr weld a theimlo'r gwrthrych cyn ei brynu. Sut y gall y sector crefftau fynd i'r afael â hyn? Pa wersi sydd i'w dysgu

o gelfyddydau eraill, ac a oes modd eu cymhwyso i'r sector crefftau? A beth yw'r goblygiadau i orielau masnachol?

Ers blynyddoedd mae mewnforio nwyddau rhad o ansawdd resymol wedi effeithio ar y farchnad ddomestig ar gyfer cynhyrchion creadigol ym mhen isaf a chanol y farchnad (e.e. cynhyrchion ac eithrio crefftau). Mae globaleiddio a mwy o gystadleuaeth yn awgrymu y bydd y farchnad grefftau yn y DU yn y dyfodol yn canolbwyntio mwy ar ben uchaf y farchnad, lle y mae gwreiddioldeb a gwerth esthetig yn bwysicach na chost a lle y gellir hawlio premiwm am sgiliau a gwybodaeth. Fodd bynnag, mewn amseroedd economaidd anodd gall defnyddwyr gwtogi ar eitemau drud a 'moethus'. A oes perygl o adlach yn erbyn ymblesera amlwg? Sut y dylai'r sector crefftau leoli ei hun mewn marchnad o'r fath?

Gall problemau economaidd effeithio ar y math o bobl sy'n dewis y proffesiwn hefyd. Beth fydd effaith twf araf ar y newidwyr gyrfa a'r dychwelwyr? A fydd cynnydd mewn diswyddiadau a diweithdra yn peri i fwy o bobl droi at y sector crefftau fel gyrfa amgen, ynteu a fydd ansicrwydd economaidd yn gwneud pobl yn fwy amharod i fentro a newid cyfeiriad?

Yn olaf, a fydd pwysau economaidd yn cyflymu'r duedd tuag at waith portffolio, wrth i bobl fanteisio ar eu sgiliau crefft i ddenu incwm o ystod ehangach o ffynonellau, ynteu a fydd yn lleihau nifer y cyfleoedd, wrth i sectorau eraill wneud toriadau hefyd? A yw gwneuthurwyr yn benodol yn gallu marchnata eu hunain yn ddigon da i ddatblygu'r proffil sydd ei angen er mwyn manteisio ar gyfleoedd y tu allan i'r sector crefftau uniongyrchol?

- Beth fydd effaith y newidiadau i addysg uwch ar y sector crefftau?

Mae'r sector crefftau wedi cael ei 'broffesiynoli' yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda graddau cyntaf ac ail raddau yn dod yn brif lwybr i'r proffesiwn. Mae addysgu mewn sefydliadau addysg uwch hefyd yn ffynhonnell incwm bwysig i nifer o grefftwyr proffesiynol. Eto gwelwyd arwyddion ers peth amser bod y darlun hwn yn newid. Mae mwy o gyrsiau crefft arbenigol wedi dod i ben (am resymau sy'n cynnwys cost, diffyg diddordeb, diffyg lle ac iechyd a diogelwch) nag sydd wedi dechrau, a gwelwyd cynnydd nodedig yn nifer y cyrsiau rhyngddisgyblaethol sy'n cynnwys elfen yn ymwneud â chrefftau. Beth yw goblygiadau newidiadau o'r fath i strwythur y sector crefftau? A fydd pob llwybr arall i'r proffesiwn - prentisiaethau, neu weithio gyda gwneuthurwyr mwy profiadol - yn adfywio, ynteu a fydd cyrsiau rhyngddisgyblaeth a llwybrau gyrfa eraill yn dod yn fwyfwy amlwg?

- Pa effaith a gaiff y toriadau yng nghyllideb y sector celfyddydol a diwylliannol?

Mae economi'r sector crefftau, fel llawer o'r diwydiannau creadigol, yn gymysgedd o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus. Fel rhan o'r ymgais ehangach i gyfyngu ar wariant cyhoeddus, cyhoeddwyd toriadau yng nghyllideb yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (y DCMS yn Lloegr) ac adrannau'r llywodraethau datganoledig (yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) sy'n cwmpasu'r celfyddydau. Mae awdurdodau lleol hwythau yn cwtogi eu gwariant ar y celfyddydau a diwylliant. Beth fydd goblygiadau hyn i'r sector crefftau, o ran y gostyngiad tebygol mewn gwariant uniongyrchol ar grefftau (drwy brynu a chomisiynu gwaith crefft gan gasgliadau cyhoeddus) a'r lleihad yn strwythur cymorth y celfyddydau y mae nifer sylweddol o grefftwyr proffesiynol yn ei ddefnyddio? Beth fydd yn digwydd mewn meysydd comisiynu eraill lle roedd rhai gwneuthurwyr yn dechrau gwerthu eu gwasanaethau, fel gofal iechyd?

- A all y sector crefftau ymateb i'r pryderon cynyddol ynghylch materion amgylcheddol a moesegol?

Ar yr wyneb, ymddengys fod y sector crefftau mewn sefyllfa dda i elwa ar y newidiadau ehangach hyn mewn diwylliant. Yn aml dychmygir bod gwneud crefftau yn ddull 'dilys' o gynhyrchu ar raddfa fach sydd â'i wreiddiau mewn deunyddiau naturiol, ac mae'n wir bod llawer o wneuthurwyr eisoes wedi ymateb i bryderon amgylcheddol a moesegol. Fodd bynnag, mae rhai o'r disgyblaethau crefft mwyaf arwyddocaol, fel cerameg a gwydr, yn defnyddio dulliau (fel tanio a gwydro) nad ydynt yn gyfeillgar i'r amgylchedd ond na ellir eu disodli'n hawdd o fewn yr ymarfer presennol. O gofio bod ganddynt adnoddau ariannol cyfyngedig yn aml iawn, a all gwneuthurwyr ddod o hyd i ffyrdd o liniaru'r difrod posibl y gall ymarfer o'r fath ei achosi?

## Sylwadau i gloi

Awgryma'r cwestiynau a'r materion hyn y gall crefftau cyfoes fod yn wynebu cyfnod o gythrwfl anarferol: prin y gwelwyd cymaint o heriau o gymaint o wahanol gyfeiriadau ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau sydd o blaid y sector crefftau. Mae'n defnyddio meddylfryd modern a thechnoleg i

adeiladu ar ei sgiliau, ei wybodaeth a'i brofiad sydd wedi cael eu profi dros amser, ac mae'n apelio at reddfau dynol dwfn: gwerth ei natur unigryw, balchder mewn ansawdd a gwerth crefftwaith. Pa bynnag newidiadau a ddaw, awgryma hanes y sector y bydd crefftwyr proffesiynol yn dod o hyd i ffyrdd o ailfeddwl  am eu hymarfer a'i ailddyfeisio er mwyn addasu i fyd cyfnewidiol, a galluogi'r byd crefftau i ffynnu.

# 2. Cyflwyniad

## 2.1 Strwythur yr adroddiad

Mae'r adroddiad byr hwn yn crynhoi cyfres gyfan o dystiolaeth a gasglwyd yn yr adroddiad hwy, *Crefftau Mewn Oes o Newid*. Yn yr adrannau canlynol, ymhelaethir ar y crynodeb gweithredol, a rhoddir rhagor o fanylion am dri maes: proffil y DU gyfan o grefftwyr proffesiynol a'u busnesau; ymchwilio i'r themâu ehangach (fel lledaeniad technoleg ddigidol); a dadansoddiad o wneuthurwyr Cymru yn benodol.

## 2.2 Cyd-destun crefftau

Mae'r sector crefftau wedi cael ei ystyried yn un o'r 'diwydiannau creadigol' ers i'r term gael ei fabwysiadu gyntaf gan lywodraeth Prydain ym 1998. Fodd bynnag, mae'r sector crefftau wastad wedi bod yn anodd ei fesur. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn cynhyrchu ystod o amcangyfrifon economaidd ar gyfer y diwydiannau sy'n rhan o'i chylch gwaith, ond ni all ddarparu ffigurau ar gyfer y sector crefftau ar gyfer llawer o'i dangosyddion. Mae hyn oherwydd bod y rhan fwyaf o fusnesau crefftau yn fach a'i bod yn anodd adnabod gwneuthurwyr drwy'r categorïau diwydiannol a galwedigaethol safonol - mae'n anodd, er enghraifft, gwahanu cerameg 'stiwdio' a phrosesau mwy diwydiannol.

Yn yr amgylchiadau hyn, yr asiantaethau sy'n ymdrin â chrefftau sydd wedi bod yn gyfrifol am wneud gwaith ymchwil i faint, gwerth a nodweddion y sector. O bryd i'w gilydd mae'r cyrff hyn - y Cyngor Crefftau, Creative Scotland (olynydd Cyngor Celfyddydau'r Alban), Cyngor Celfyddydau Cymru a Craft Northern Ireland - wedi comisiynu astudiaethau mawr o'r sector. Cwblhawyd y gyfres ddiwethaf o adroddiadau rhwng 2002 a 2006. Y gwaith ymchwil newydd hwn yw'r gwaith cyntaf o'i fath i gael ei gomisiynu ar yr un pryd gan y pedwar sefydliad. Mae'n canolbwyntio ar grefftau cyfoes, ond yn ymdrechu i edrych ar 'gadwyn gwerth' gyfan y sector hwnnw: nid dim ond gwneuthurwyr ond manwerthwyr, addysgwyr, curaduron ac awduron hefyd.

Mae crefftau 'cyfoes' yn amlwg yn derm y gellid ei ddehongli mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Am y rheswm hwn, ni cheisiodd yr arolwg bennu diffiniad cadarn o'r sector yn seiliedig ar y deunyddiau a ddefnyddir neu'r disgyblaethau. Mae'r dull a ddefnyddir yn y gwaith ymchwil hwn yn dilyn yr un a ddefnyddiwyd yn y gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn 2004[3] yn fras: nodi'r bobl a oedd eisoes ar gronfeydd data 'crefftau' sefydledig, a phwy felly a oedd wedi dewis nodi eu hunain fel crefftwyr, a gofyn iddynt a oeddent yn fasnachol weithgar yn y sector crefftau 'cyfoes'. Nid oedd yr arolwg yn cynnwys y rhai a oedd yn ymddiddori mewn crefftau a gwneuthurwyr crefftau traddodiadol neu grefftau treftadaeth.[4]



Cyfres 'Loose Threads 2010' gan Laura Thomas. Ffotograff gan Toril Brancher.

[3] McAuley, A. a Fillis, I. (2004) *Making it in the 21st Century: a socio-economic study of crafts activity in England and Wales, 2002 – 2003*, Y Cyngor Crefftau, Llundain.
[4] Addaswyd yr arolwg yn yr Alban er mwyn ei gwneud yn glir y byddai gwneuthurwyr a oedd yn disgrifio eu gwaith fel gwaith 'cynhenid' yn cael eu cynnwys. Mae Creative Scotland yn diffinio crefftau cynhenid fel y rhai sydd â'u gwreiddiau yn niwylliannau'r Alban – ac roedd am i wneuthurwyr a oedd yn ymgymryd ag ymarfer o'r fath a gwneuthrwyr arloesol gael eu cynnwys.

# 3. Crefftwyr proffesiynol yn y DU a'u busnesau

Daw'r dystiolaeth ar gyfer yr adran hon o'r arolwg dros y ffôn o wneuthurwyr, manwerthwyr ac addysgwyr yn bennaf, ond roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn deillio o arolwg llenyddiaeth a grwpiau ffocws. Mae'r ffigurau a ddyfynnir yn ffigurau ar gyfer y DU gyfan.


## 3.1 Proffil demograffig ymatebwyr y DU

### Rhyw

At ei gilydd, roedd 69% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn fenywod a 31% yn ddynion. Roedd canran y menywod ychydig yn uwch ymysg manwerthwyr ac addysgwyr o gymharu â gwneuthurwyr. Mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch na'r hyn a gofnodwyd mewn arolygon blaenorol, ac yn cadarnhau'r duedd a welwyd dros yr ugain mlynedd diwethaf, sef un o gynnydd cyson yng nghanran y menywod sy'n rhan o'r gweithlu crefftau cyfoes.

Dangosodd dadansoddiad o'r rhai dan 24 oed fod cyfran y menywod yn parhau i fod yn uwch ymysg y cohort iau, sy'n awgrymu y bydd y cynnydd hwn yng nghyfran y menywod sy'n rhan o'r gymuned grefftau yn parhau yn debygol o barhau yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Ffigur 3 Rhyw yn ôl categori (canran)




Ffynhonnell: BOP Consulting (2011) yn seiliedig ar 2,046 o ymatebion

### Oedran

Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu hunain yn un o'r bandiau oedran a ddangosir yn Ffigur 4. Prin oedd y nifer dan 25 oed, efallai oherwydd bod methodoleg yr arolwg, a oedd yn dibynnu'n sylweddol ar gronfeydd data'r asiantaethau crefftau, yn fwy tebygol o amlygu gwneuthurwyr sefydledig. Gallai dyledion cynyddol adeg graddio a'r cynnydd yn y nifer sy'n dilyn cyrsiau ôl-radd hefyd beri i wneuthurwyr ifanc oedi cyn sefydlu eu busnesau.

Roedd pob un o'r pum band oedran yn cynnwys o leiaf 12% o'r ymatebwyr.


Ffigur 4  Ymatebwyr yn ôl band oedran

| Band oedran | Cyfanswm (%) | Dynion (%) | Menywod (%) |
|---|---|---|---|
| 16-24 | 1.4 | 0.6 | 1.8 |
| 25-34 | 12.4 | 7.5 | 14.6 |
| 35-44 | 21.4 | 19.8 | 22.1 |
| 45-54 | 25.8 | 22.3 | 27.4 |
| 55-64 | 25.3 | 28.5 | 23.9 |
| 65 a throsodd | 12.2 | 20.0 | 8.8 |
| Gwrthod ateb | 1.4 | 1.4 | 1.5 |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Fel y dangosir yn Ffigur 5, cyfartaledd oedran yr ymatebwyr (fel mesur bras yn seiliedig ar bwyntiau canol y bandiau) oedd 48.7 oed. Cyfartaledd oedran y gwneuthurwyr a holwyd oedd 49; roedd y manwerthwyr a'r addysgwyr, ar gyfartaledd, ychydig yn iau.

Ffigur 5  Amcangyfrif o gyfartaledd oedran (mewn blynyddoedd) yn ôl categori




Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

## Anabledd

Er bod astudiaethau blaenorol wedi holi ynghylch anabledd, bu peth aneglurder ynghylch cynnwys dyslecsia. Ar gyfer yr astudiaeth hon, cafodd cwestiwn gwahanol ei gynnwys ar gyfer y ddau. Dywedodd mwy nag un rhan o ddeg o grefftwyr proffesiynol bod ganddynt ddyslecsia (11.5%), a disgrifiodd 4.1% eu hunain fel anabl (caniatawyd i ymatebwyr 'hunanddiffinio'). Dywedodd 0.5% o'r ymatebwyr bod ganddynt ddyslecsia ac anabledd, ac felly cawsant eu cyfrif yn y cyfansymiau ar gyfer y ddau.

## Ethnigrwydd

Disgrifiodd mwyafrif helaeth y bobl (81%) eu hunain fel Gwyn Prydeinig, gyda 2.4% yn dewis 'Gwyn Gwyddelig'. (Gwrthododd tua 3% ateb y cwestiwn hwn.) Roedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 3.5% o'r sampl. Roedd y grŵp 'Gwyn Arall' yn cyfrif am 10% o'r ymatebwyr. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys llawer o Ewropeaid, pobl o Ogledd America a phobl wyn o Dde Affrica.

Drwy gymharu'r canlyniadau hyn â data o 2007 ar gyfer poblogaeth gyffredinol Cymru a Lloegr (caiff y ffigurau ar gyfer yr Alban a Gogledd

Iwerddon eu cyfrifo'n wahanol), awgrymir bod cyfran y bobl 'Gwyn Arall' yn sylweddol uwch nag ymysg y boblogaeth yn gyffredinol, lle mae'r gyfradd yn ddim ond 3.4%. Ar y llaw arall, roedd pobl Asiaidd/Asiaidd Prydeinig yn cyfrif am 5.5% o'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru a Lloegr yn 2007, o gymharu â dim ond 0.7% yn sampl arolwg crefftau'r DU gyfan.

Ffigur 6 Ethnigrwydd

| Grŵp ethnig | Canran |
|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 81.0 |
| Gwyn Gwyddelig | 2.4 |
| Gwyn Arall | 10.0 |
| Du/Du Prydeinig | 0.5 |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 0.7 |
| Cymysg | 0.8 |
| Arall | 1.5 |
| Gwrthod ateb | 3.2 |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

## 3.2 Gwneuthurwyr yn y DU a'u busnesau

### Strwythur busnesau crefftau

Mae'r ail gyfres o ffigurau'n edrych ar arferion busnes gwneuthurwyr. At ei gilydd, roedd 88% ohonynt yn unig fasnachwyr.

Ffigur 7 Strwythur busnesau crefftau


| Strwythur busnesu | Canran |
|---|---|
| Unig fasnachwr | 87.7 |
| Partneriaeth | 5.8 |
| Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig | 1.8 |
| Cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau | 2.9 |
| Cwmni preifat cyfyngedig drwy warant | 0.1 |
| Cwmni cydweithredol | 0.4 |
| Arall | 1.3 |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

### Sgiliau

Mae gwneuthurwyr yn grŵp a chanddynt lawer o gymwysterau: mae gan ychydig dros 60% radd gyntaf neu ail radd mewn crefft, celf neu ddylunio. Dim ond un o bob chwech (15.5%) a oedd heb unrhyw gymhwyster neu hyfforddiant ffurfiol yn ymwneud â chrefftau. I gymharu, roedd gan 30.0% o'r holl oedolion o oedran gweithio yn y DU gymwysterau lefel 4 (lefel gradd) neu uwch yn 2010, yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu.

Ffigur 8  Addysg mewn crefft/celf/dylunio (canran)




Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

## Crefftau fel ail yrfa

Nid gwneud crefftau oedd gyrfa gyntaf hanner (50%) y rhai a gyfwelwyd. Roedd pobl yn symud i'r sector crefftau o ystod eang o broffesiynau: roedd yr enghreifftiau'n amrywio o griced proffesiynol ac ymgynghoriaeth reoli i ddylunio graffeg a gofal iechyd. Fodd bynnag, dim ond ychydig dros 12% o wneuthurwyr 'ail yrfa' a oedd yn gweithio fel athrawon yn wreiddiol.

## Y disgyblaethau a'r deunyddiau

Roedd y disgyblaethau a'r deunyddiau'n amrywio (gyda 32% o wneuthurwyr yn defnyddio mwy nag un deunydd) ond y tri mwyaf cyffredin oedd cerameg, tecstilau a gemwaith. Yna roedd 'metel arall', pren, gwydr ac arian. Mae nifer o weithgareddau nad ydynt yn ymddangos yn Ffigur 9 gan eu bod islaw'r trothwy 1.9% ar gyfer eu cynnwys (mae rhestr lawn i'w gweld yn atodiadau'r prif adroddiad).

Roedd y rhan fwyaf o wneuthurwyr – 68% – yn gweithio gyda dim ond un deunydd, roedd 20% yn gweithio gyda dau ddeunydd ac 8% yn gweithio gyda thri..

Ffigur 9  Maes gweithgaredd/deunyddiau a ddefnyddiwyd (canran y gwneuthurwyr)

| Deunyddiau a ddefnyddiwyd (canran o leiaf 1.9%) | Canran |
|---|---|
| Cerameg | 25.7 |
| Tecstilau (yn cynnwys gwau a brodwaith, ond nid gwehyddu) | 22.9 |
| Gemwaith | 20.0 |
| Metel arall (ac eithrio gemwaith ac arian) | 12.1 |
| Pren (ac eithrio dodrefn) | 10.7 |
| Gwydr | 10.3 |
| Arian | 7.1 |
| Dodrefn | 5.9 |
| Papur (ac eithrio crefftau graffeg) | 4.0 |
| Cyfryngau cymysg | 3.7 |
| Carreg | 2.7 |
| Crefftau graffeg (yn cynnwys caligraffeg, arwyddion a rhwymo llyfrau) | 2.5 |
| Deunyddiau synthetig (yn cynnwys plastig) | 2.2 |
| Lledr | 2.0 |
| Gwehyddu | 1.9 |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

## Incwm busnes

Yr incwm crynswth cyfartalog yn 2010 (gan gyfrif incwm o grefftau ac incwm nad yw'n deillio o grefftau gyda'i gilydd) oedd £23,485. Gan mai unig fasnachwyr yw'r rhan fwyaf o wneuthurwyr y DU, mae'r gwahaniaeth rhwng gwneuthurwyr fel busnes  ac unigolyn  yn aml yn aneglur mewn realiti. Nod Ffigur 10 yw ceisio gwneud yr amrywiol ffynonellau incwm yn glir. Mae dwy elfen. Y cyntaf o'r rhain yw'r incwm crynswth o bob ffurf ar ymarfer gwneuthurwr (boed hynny'n wneud gwrthrychau neu'n ymarfer arall, fel


gwaith ymgynghori). Cyfeirir at yr elfennau hyn yn Ffigur 10 fel incwm sy'n gysylltiedig â chrefftau sy'n deillio o fusnes gwneuthurwr.

Fodd bynnag, mae llawer o wneuthurwyr, fel unigolion, yn cael incwm o ffynonellau nad ydynt yn gysylltiedig â chrefftau hefyd, fel swyddi rhan amser neu bensiynau. Mae hyn yn rhan o incwm y crefftwr, ac yn wir gall fod yn angenrheidiol er mwyn ategu ymarfer y gwneuthurwr, ond nid yw'n deillio'n uniongyrchol o'r ymarfer hwnnw. Mae hyn felly wedi'i ddangos ar wahân yn Ffigur 10, fel incwm nad yw'n gysylltiedig â chrefftau. Gan edrych ar y ddwy elfen incwm gros yn eu tro:

1. Roedd yr incwm cyfartalog yn gysylltiedig ag incwm yn £19,827. Mae hyn yn deillio o:
   - Drosiant cyfartalog yn deillio o grefftau cyfoes: £16,572
   - Incwm cyfartalog o weithgareddau eraill yn gysylltiedig â chrefftau: £3,255. Ffynhonnell fwyaf incwm o'r fath oedd addysgu'n gysylltiedig â chrefftau.
2. Incwm cyfartalog o weithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â chrefftau: £3,658. Mae'r categori hwn yn cynnwys incwm o ffynonellau fel addysgu nad yw'n gysylltiedig â chrefft, buddsoddiadau a phensiynau.

Dengys Ffigur 10 yr amrywiol ffynonellau incwm crynswth ar gyfer gwneuthurwr 'cyffredin'. Mae'r cyfuniad o drosiant o werthu gwrthychau ac incwm o ffynonellau eraill sy'n gysylltiedig â chrefftau yn cyfrif am 84% o incwm crynswth, gyda ffynonellau nad ydynt yn gysylltiedig â chrefftau yn cyfrif am yr 16% sy'n weddill.

Ffigur 10 Incwm gros cyfartalog gwneuthurwyr, 2010





Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

## Oriau yr wythnos

Cyfartaledd yr oriau a weithiwyd yr wythnos ar weithgareddau'n gysylltiedig â chrefftau oedd tua 39, ond roedd y ffigurau ar gyfer gwneuthurwyr unigol yn amrywio'n sylweddol. Roedd gwneuthurwyr yn treulio 27 o oriau'n dylunio ac yn gwneud, mwy na chwe awr yr wythnos yn gwerthu, a 5.6 awr yr wythnos ar weithgareddau eraill yn gysylltiedig â chrefftau ar gyfartaledd. Roedd 43% o wneuthurwyr yn gweithio mwy na 30 awr yr wythnos neu lai ar weithgareddau'n gysylltiedig â chrefftau, sef y trothwy ar gyfer gwaith 'rhan amser' mewn arolygon blaenorol.

Ffigur 11 Oriau a weithiwyd




Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Mae bron ddwy ran o dair o wneuthurwyr yn gweithio o'u cartrefi. Mae mwyafrif y gweddill yn rhentu gofod gwaith. O blith y gwneuthurwyr a ddywedodd eu bod yn rhentu gofod, roedd 56% yn gwneud hynny mewn stiwdios artistiaid.

### Sianeli gwerthu

Yna gofynnwyd i wneuthurwyr pa sianeli gwerthu yr oeddent yn eu defnyddio, a pha rai a oedd bwysicaf iddynt (yn ariannol).

Roedd modd i wneuthurwyr roi mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn. Roedd mwy na'u hanner (55%) yn gwerthu drwy arddangosfeydd ac orielau masnachol, ac roedd mwy na thraean yn derbyn comisiynau gan y cyhoedd, drwy ffeiriau crefftau neu'n gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd o'u gweithdai/cartrefi. Y pedwar categori hyn oedd y dewisiadau mwyaf poblogaidd pan ofynnwyd i wneuthurwyr nodi eu sianel werthu bwysicaf.

## 3.3 Busnesau manwerthwyr

Gwerthir crefftau drwy nifer o sianeli. Weithiau mae gwneuthurwyr yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd, drwy ffeiriau crefftau, marchnadoedd stryd arbenigol neu drwy gomisiynau, er enghraifft. Mewn nifer o achosion, fodd bynnag, caiff crefftau eu gwerthu ar ran y gwneuthurwyr gan fanwerthwyr. Er mwyn deall yr elfen hon o 'gadwyn gwerth' crefftau, siaradwyd â 128 o fanwerthwyr crefftau o bob cwr o'r DU fel rhan o'r arolwg dros y ffôn. Roedd cronfa ddata'r manwerthwyr y cafodd y rhai a gyfwelwyd eu dewis ohoni yn cynnwys orielau masnachol; safleoedd manwerthu mewn orielau cyhoeddus ac amgueddfeydd; siopau crefftau a manwerthwyr ar-lein.

Oriel neu siop yw'r uned fanwerthu fel arfer, ond mae gwerthu ar-lein drwy wefan busnes yn bwysig i leiafrif. Roedd ychydig yn llai na hanner y manwerthwyr a holwyd yn gwerthu gwrthychau crefftau cyfoes yn unig (44%), ac roedd y gweddill yn gwerthu eitemau eraill hefyd, a oedd fel arfer yn cynnwys celfyddyd gain neu ddeunyddiau ysgrifennu, rhoddion a chardiau. Gemwaith, cerameg a thecstilau oedd y crefftau a werthwyd amlaf, a gemwaith oedd y ffynhonnell refeniw bwysicaf i bron hanner y manwerthwyr. Mae busnes manwerthu crefftau nodweddiadol wedi bodoli ers ychydig yn llai nag 20 mlynedd ac yn y cyflogi 4.5 o bobl.

## 3.4 Addysgwyr awduron a churaduron

Yn ogystal, ceisiodd yr ymchwilwyr siarad â gweithwyr proffesiynol sy'n ennill bywoliaeth o'r sector crefftau ond nad ydynt yn gwneud gwrthrychau fel eu prif weithgaredd, yn cynnwys addysgwyr, awduron a churaduron. At ei gilydd, cyfwelwyd â 71 o'r rhain, gyda chynrychiolaeth o bob un o bedair gwlad y DU. Unwaith eto, mae'r sampl hwn yn rhy fach i gael yr un lefel o gadernid ystadegol â'r data ar gyfer gwneuthurwyr, ond gellir trin y canlyniadau fel rhai dangosol.

Mae addysgwyr, awduron a churaduron mewn nifer o achosion yn dilyn gyrfaoedd portffolio lle mae eu hincwm yn deillio o gymysgedd o weithgareddau yn bennaf yn y sector crefftau neu feysydd â chysylltiad agos â'r sector (celf a dylunio).

- Roedd y rhan fwyaf o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw (87%) yn addysgu'n ffurfiol, o leiaf gyfran o'r amser, fel arfer mewn sefydliad addysg uwch. Roedd y pynciau'n amrywio: roeddent yn cynnwys sgiliau gwneud crefftau, gwerthfawrogi crefftau a dylunio.

- Roedd bron 20% yn addysgu cymysgedd eang o bobl yn anffurfiol mewn lleoliadau fel canolfannau cymunedol, orielau a cholegau.
- Roedd bron 20% yn cael incwm o ysgrifennu am grefftau, a hynny fel awduron llawrydd gan amlaf, ac roedd 11% yn cael incwm o guradu.
- Dywedodd bron draean eu bod yn cael rhyw fath o incwm o wneud crefftau cyfoes, er nad hon oedd eu prif ffynhonnell incwm yn gysylltiedig â chrefftau.

## 3.5 Maint cyffredinol y sector

Yn ogystal, amcangyfrifodd BOP Consulting nifer y busnesau gwneud crefftau cyfoes yn y DU (ceir cyfrifiadau manwl yn yr adroddiad llawn). Ein hamcangyfrif oedd 23,050.

Ffigur 12 Amcangyfrif o nifer y busnesau gwneud crefftau yn ôl gwlad

| Sir | Amcangyfrif o'r boblogaeth (wedi'i dalgrynnu i'r 50 agosaf) | Canran o gyfanswm y DU |
|---|---|---|
| Lloegr | 17,150 | 74.4% |
| Yr Alban | 3,350 | 14.5% |
| Cymru | 1,500 | 6.5% |
| Gogledd Iwerddon | 1,050 | 4.6% |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Mae lluosi nifer y busnesau gydag incwm cyfartalog yn gysylltiedig â chrefftau yn rhoi amcangyfrif o gyfanswm incwm o £457m ar gyfer yr holl fusnesau sy'n gwneud crefftau cyfoes. Er mwyn cymharu â diwydiannau creadigol eraill, roedd cyfanswm refeniw theatrau'r West End yn Llundain yn £512m yn 2010[5], ac roedd gwariant ar lawrlwytho cerddoriaeth yn y DU yn £316m[6] yn yr un flwyddyn.

[5] Figure from the Society of London Theatres, quoted in http://www.thestage.co.uk/news/newsstory.php/31087/theatreland-enjoys-golden-age-despite-ash- accessed 14 October 2011

[6] Figure from BPI Annual Yearbook 2010

Mae'r ffigur hwn ar gyfer cyfanswm yr incwm sy'n gysylltiedig â chrefftau yn is na rhai amcangyfrifon blaenorol. Mae un esboniad yn ymwneud â'r fethodoleg - yn yr arolwg presennol, gofynnwyd i wneuthurwyr roi ffigur penodol ar gyfer eu hincwm, yn hytrach na nodi ym mha fand yr oedd eu hincwm. Mae'r dull hwn yn debygol o fod yn fwy cywir na'r dull 'bandiau', ond mae hefyd yn debygol o gofnodi cyfansymiau is. Mae'r lefel uwch o weithio rhan amser a gofnodwyd yn yr arolwg diweddaraf hwn hefyd yn egluro'r bwlch i raddau helaeth. Mae'n bosibl mai'r amseroedd economaidd anodd sy'n gyfrifol am y newid hwn.

Yn ogystal paratodd BOP Consulting gyfrifiad o Werth Ychwanegol Crynswth (GVA) - faint o werth y mae crefftwyr yn ei ychwanegu drwy drawsnewid eu deunyddiau crai yn gynhyrchion ac yn wasanaethau gorffenedig.[7] Mae'r ffigur o £220m ar gyfer crefftau yn fwy na dwbl amcangyfrif y DCMS (ar gyfer 2008) o GVA Ffasiwn Dylunwyr, a oedd yn £100m.

## 3.6 Proffiliau o'r mathau o wneuthurwyr

Mae'r dadansoddiad o strwythur a demograffeg busnesau yn ddefnyddiol, ond gall canolbwyntio ar gyfartaleddau guddio amrywiadau eang ym mhrofiadau unigolion. Drwy ddadansoddi'r wybodaeth feintiol ac ansoddol a gasglwyd yn y gwaith ymchwil hwn a'r arolwg llenyddiaeth daeth yn amlwg nad oedd proffil y crefftwr 'nodweddiadol' yn adlewyrchu rhai o'r gwahaniaethau mwy cynnil rhwng mathau o wneuthurwyr.

Mae dau o nodweddion gwneuthurwyr yn benodol yn chwarae rhan mewn egluro'r gwahaniaethau rhyngddynt: cymwysterau a ph'un ai yn y sector crefftau yr oedd eu gyrfa gyntaf. Mae aseinio gwneuthurwyr i'r categorïau hyn yn creu pedwar grŵp gwahanol, a ddangosir yn Ffigur 13. Yna edrychwyd yn fanylach ar y data i weld a oedd gwahaniaethau mewn ymarfer a pherfformiad busnes rhwng y pedwar proffil o wneuthurwyr.

Er eglurder, rhydd yr adroddiad hwn enwau i bob un o'r pedwar proffil, sy'n ceisio adlewyrchu rhywfaint o'r gwahaniaethau rhwng y gwneuthurwyr. Dylid nodi y gallai'r ffordd y defnyddir y termau hyn yn yr adroddiad hwn fod yn wahanol i'r ffordd y cânt eu defnyddio mewn mannau eraill.

[7] Mae rhagor o fanylion am y cyfrifiad GVA yn atodiad 8 i'r prif adroddiad.


Galwyd y grŵp cyntaf a'r mwyaf yn 'yrfawyr'. Mae pobl yn y grŵp hwn yn ymrwymedig i'r syniad o ddilyn gyrfa yn y sector crefftau ac yn dechrau eu busnesau yn fuan ar ôl iddynt orffen eu gradd gyntaf (neu eu hail radd) mewn pynciau sy'n gysylltiedig â chrefftau.

Galwyd yr ail grŵp yn 'grefftwyr'. Mae aelodau o'r grŵp hwn hefyd wedi dewis gyrfa gyntaf yn y sector crefftau ond heb fynd ar drywydd graddau academaidd yn y pwnc. Dyma'r grŵp lleiaf, sy'n cyfrif am ychydig yn llai na 12% o'r sampl.

Dechreuodd y trydydd grŵp o wneuthurwyr eu gyrfa mewn meysydd eraill cyn dewis crefftau fel proffesiwn, a hynny'n aml pan oeddent yn ganol oed. Fe'i galwyd yn 'newidwyr gyrfa', Maent yn cynrychioli mwy na chwarter y rhai a holwyd.

Galwyd y grŵp olaf yn 'ddychwelwyr'. Gwneuthurwyr sydd wedi'u hyfforddi ym maes celf, crefft neu ddylunio yw'r rhain, ond nad ydynt wedi dilyn eu gyrfa gyntaf yn y sector crefftau. Penderfynasant ddilyn trywydd arall ar ôl bod yn y brifysgol neu'r coleg cyn 'dychwelyd' at grefftau yn ddiweddarach. Maent yn cynrychioli 22% o'r sampl.

Ffigur 13 Proffiliau o'r mathau o wneuthurwyr





Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Gyrfawyr yw'r grŵp mwyaf mewn tair o blith pedair gwlad y DU. Cymru yw'r eithriad, gyda newidwyr gyrfa'n cynrychioli'r grŵp mwyaf.

Mae mwy o'r gyrfawyr i'w cael yn y cohortau iau, o gymharu â'r grwpiau eraill. Ar y llaw arall, mae newidwyr gyrfa yn tueddu i fod yn y cohortau hŷn.

Ffigur 14 Proffil oedran mathau o wneuthurwyr




Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Mae gyrfawyr a dychwelwyr yn fwy tebygol o fod yn fenywaidd o gymharu â chyfanswm y sampl.

Mae crefftwyr a gyrfawyr yn fwy dibynnol ar eu hincwm sy'n gysylltiedig â chrefftau na'r ddau grŵp arall, ac yn llai tebygol o gael ffynonellau incwm eraill y tu allan i'w hymarfer. Mae hyn yn arbennig o wir am grefftwyr, lle mae dim ond un rhan o bump sy'n nodi bod ganddynt incwm nad yw'n gysylltiedig â chrefftau.

Mae newidwyr gyrfa a dychwelwyr yn fwy tebygol o fod ag incwm nad yw'n gysylltiedig â chrefftau, a thybir bod hyn yn adlewyrchu eu 'bywyd blaenorol' cyn iddynt sefydlu eu hymarfer yn y sector crefftau. Mae newidwyr gyrfa yn fwy tebygol o gael incwm ymddeol na'r lleill (fel y byddai eu proffil oedran hŷn yn awgrymu).

Dengys Ffigur 15 ragor o ddangosyddion ar ymarfer yn y sector crefftau ar draws y gwahanol broffiliau. Dengys wahaniaethau clir rhwng gyrfawyr a'r tri phroffil arall, yn cynnwys crefftwyr. Mae gyrfawyr yn fwy tebygol (i) o ddefnyddio technoleg ddigidol yn eu hymarfer o wneud a dylunio eu gwrthrychau; (ii) o fod wedi newid eu hymarfer (yn y tair blynedd diwethaf) oherwydd pryderon amgylcheddol, a (iii) o fod wedi gwerthu eu gwaith i gasgliad cyhoeddus. Awgryma hyn fod gyrfawyr yn fwy parod i addasu eu hymarfer mewn ymateb i newidiadau yn y diwylliant ehangach.

Ffigur 15 Ymarfer, yn ôl proffil o wneuthurwyr

| Proffil | % y gwneuthurwyr sy'n gwerthu eu gwaith ar-lein (yn cynnwys gwefannau a chyfryngau cymdeithasol | % y gwneuthurwyr sy'n defnyddio technoleg ddigidol wrth wneud neu ddylunio | % y gwneuthurwyr sydd wedi newid eu hymarfer oherwydd pryderon amgylcheddol | % y gwneuthurwyr y mae eu gwaith wedi cael ei werthu i gasgliad cyhoeddus |
|---|---|---|---|---|
| Gyrfawyr | 39.3 | 42.7 | 34.1 | 37.3 |
| Newidwyr gyrfa | 30.2 | 28.6 | 28.8 | 15.1 |
| Dychwelwyr | 36.3 | 35.9 | 30.8 | 31.5 |
| Crefftwyr | 32.6 | 29.6 | 30.2 | 26.7 |
| Cyfanswm | 35.3 | 35.8 | 31.4 | 28.6 |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

I grynhoi, mae dadansoddi gwneuthurwyr yn ôl eu cymwysterau a'u gyrfa gyntaf yn rhoi dealltwriaeth fanylach i ni o'u nodweddion a'u hagweddau tuag at eu hymarfer, a pherfformiad eu busnesau.

# 4. Ffocws ar themâu ehangach

Mae gan y sector crefftau cyfoes ei nodweddion penodol ei hun, ond ni ellir edrych ar y sector ar ei ben ei hun. Fel yr awgryma teitl yr adroddiad hwn, mae'r oes hon yn newid yn gyflym: o ran yr economi, yr amgylchedd a diwylliant. Ymchwiliwyd i effaith y newidiadau ehangach hyn ar grefftau yn yr arolwg llenyddiaeth a'r trafodaethau gyda'r grwpiau ffocws. Deilliodd pedair thema o'r rhain, a fu'n sail i'r arolwg dros y ffôn.

- Sut y mae'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol yn dylanwadu ar ymarfer yn y sector crefftau?
- Sut y mae'r ddadl rhwng y byd-eang a'r lleol yn dod i'r amlwg yn y sector?
- I ba raddau y mae cynaliadwyedd yn effeithio ar ymarfer yn y sector?
- Sut y mae'r anawsterau economaidd diweddar wedi effeithio ar y sector?

Mae'r rhain yn feysydd cymhleth iawn, a fydd yn parhau i ddylanwadu ar y tirlun economaidd, gwleidyddol a diwylliannol am flynyddoedd i ddod. Bu'r arolwg dros y ffôn yn fodd o'n galluogi i gasglu tystiolaeth am y materion hirdymor hyn, a'r ffordd y maent yn effeithio ar y sector crefftau cyfoes. Mae'r adran hon yn ystyried y canlyniadau a ddeilliodd o'r arolwg sy'n gysylltiedig â'r themâu hyn.

## 4.1 Sut y mae'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol yn dylanwadu ar ymarfer yn y sector crefftau?

Mae'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol wedi newid llawer o'r diwydiannau creadigol yn sylweddol, yn cynnwys cerddoriaeth, cyhoeddi a ffilm. Mae'r technolegau hyn wedi ehangu'r farchnad bosibl ar gyfer cynhyrchion creadigol yn sylweddol, drwy ganiatáu i gynhyrchwyr gyrraedd cwsmeriaid cwbl newydd, ond maent hefyd wedi agor diwydiannau o'r fath i gystadleuaeth dramor ac i'r risgiau y bydd eiddo deallusol yn cael ei ddwyn.

Efallai ei bod yn ymddangos nad yw tueddiadau o'r fath yn effeithio rhyw lawer ar y sector crefftau. Mae'r sector yn pwysleisio natur ddilys ac unigryw ei gynhyrchion a'i wasanaethau, ac mae cred gyffredinol bod pobl yn hoffi gafael mewn gwrthrych a'i deimlo cyn ei brynu - ac nad oes modd efelychu'r profiad ffisegol hwn ar lein.

Ond eto mae technolegau modern fel torri â laser ac argraffu 3D wedi arwain at bosibiliadau newydd i wneuthurwyr. Yn wir, mae argraffu 3D, sy'n caniatáu i lasbrint ar gyfrifiadur gael ei 'argraffu' mewn deunyddiau fel plastig neu fetel, wedi cael ei ddisgrifio gan *The Economist* fel y dechnoleg weithgynhyrchu a fydd yn newid y byd.[8] Er nad yw'r technolegau hyn yn cael eu defnyddio'n eang gan y crefftwyr yn gyffredinol (er bod rhai gwneuthurwyr sydd yng nghanol eu gyrfa wedi eu croesawu), cânt eu defnyddio mewn prifysgol a cholegau, ac felly maent yn dylanwadu ar y genhedlaeth nesaf o grefftwyr. Mae'r technolegau hyn hefyd yn ei gwneud yn llawer haws i efelychu gwaith gwneuthurwyr.

Edrychodd yr arolwg ar ddau brif faes mewn perthynas â'r cwestiwn hwn: newidiadau yn ymarfer y crefftwyr, a newidiadau yn eu dulliau gwerthu.


### Newid mewn ymarfer

Roedd mwyafrif y gwneuthurwyr yn defnyddio rhyw ffurf ar dechnoleg ddigidol yn eu hymarfer neu wrth gynhyrchu: roedd, 57% yn gwneud hynny i gyd. O'r rhai a oedd yn defnyddio technoleg ddigidol yn eu hymarfer neu wrth gynhyrchu, roedd 57% (drwy gyd-ddigwyddiad) yn gwneud hynny'n drwy'r amser neu'n aml.

Roedd tua 30% o'r holl wneuthurwyr yn defnyddio technoleg ddigidol ar gyfer dylunio, ac 19% yn ei defnyddio ar gyfer gwneud. Fel y dengys y siart isod, mae cryn orgyffwrdd rhwng y ddau: o blith y gwneuthurwyr sy'n defnyddio technoleg ddigidol wrth ddylunio eu gwaith, roedd 44% yn defnyddio technoleg o'r fath i'w wneud hefyd.

[8] The Economist, *Print me a Stradivarius*, Chwefror 12-18, 2011, Llundain.

Ffigur 16   Y defnydd o dechnoleg ddigidol mewn ymarfer/cynhyrchu




Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

### Gwerthu

Er bod gwerthu drwy wefannau a chyfryngau cymdeithasol yn faes sy'n tyfu'n gyflym, mae eu cyfran o gyfanswm y gwerthiannau'n parhau i fod yn gymharol fach. Awgryma'r arolwg bod tua 30% o wneuthurwyr yn gwerthu drwy eu gwefan eu hunain, ac 13% yn gwerthu drwy wefannau trydydd parti. (Awgrymodd y grwpiau ffocws bod safleoedd dethol â churadur yn aml yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd bod 'curadur' yn warant o ansawdd yn llygaid y cwsmeriaid). Gwerthu drwy eu gwefannau eu hunain yw'r sianel werthu bwysicaf i tua 6% o wneuthurwyr, sy'n awgrymu bod ffordd o oresgyn o broblem o fod eisiau gweld neu gyffwrdd gwrthrych cyn ei brynu.

Dim ond 3% o wneuthurwyr a oedd yn gwerthu drwy gyfryngau cymdeithasol, sy'n adlewyrchu canfyddiadau'r arolwg llenyddiaeth bod sianeli o'r fath yn tueddu i gael eu defnyddio'n fwy ar gyfer cydweithio â gwneuthurwyr eraill.

## 4.2 Sut mae'r ddadl rhwng y byd-eang a'r lleol yn dod i'r amlwg yn y sector?

Dros yr ugain mlynedd diwethaf gwelwyd ystod o newidiadau yn economi'r byd sydd wedi dod i gael ei adnabod fel 'globaleiddio'. Mae cwymp comiwnyddiaeth yn Nwyrain Ewrop, diwygiadau economaidd yn Tsieina ac India, sefydlu marchnad sengl yr Undeb Ewropeaidd a lledaeniad economïau'n seiliedig ar y farchnad yn America Ladin ac Affrica wedi denu niferoedd mawr o ddefnyddwyr a chynhyrchwyr i'r economi fyd-eang. Mae maint aruthrol y marchnadoedd hyn a'u twf economaidd cyflym yn golygu bod nifer fawr o ddefnyddwyr yn barod i brynu nwyddau brand a nwyddau 'moethus'.

Ond mae cystadleuaeth newydd o'r lleoedd hyn wedi newid patrymau cynhyrchu'n sylweddol. Yn benodol, mewn llawer o sectorau gweithgynhyrchu 'creadigol' ym Mhrydain, yn cynnwys dillad a dodrefn, collwyd pen isaf y farchnad i gystadleuaeth dramor, yn arbennig o Ddwyrain Asia a Dwyrain Ewrop.

Mae'r sector crefftau'n cael ei dynnu i sawl cyfeiriad gwahanol. Mae elfen 'leol' gref i fyd crefftau. Mae llawer o wneuthurwyr yn ceisio creu busnesau bach sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn mewn lleoedd penodol, gan bwysleisio dilysrwydd ac adeiladu ar draddodiadau lleol yn, eu dewis o ddeunyddiau, er enghraifft. Ar y llaw arall, mae llawer o wneuthurwyr am fanteisio ar y cyfleoedd busnes a ddaw yn sgil globaleiddio.

Mae'r maes addysg uwch wedi bod drwy ei broses globaleiddio ei hun. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae prifysgolion ym Mhrydain wedi recriwtio nifer sylweddol fwy o fyfyrwyr tramor. Mae gan gyrsiau crefft, celf a dylunio yn y DU enw da iawn yn rhyngwladol, ac maent wedi cyfranogi yn y gwaith allgymorth rhyngwladol hwn. Mae llawer o'r myfyrwyr tramor hyn yn aros ym Mhrydain ar ôl iddynt raddio, ac awgrymodd rhai cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws bod hyn wedi cyfrannu at ddiwylliant mwy cosmopolitan yn y sector crefftau ym Mhrydain, wrth i draddodiadau cenedlaethol gwahanol ddod ynghyd, cymysgu a dylanwadu ar ei gilydd.

Nid yw hawdd adlewyrchu'r materion yn ymwneud â'r ddadl rhwng y byd-eang a'r lleol mewn data cadarn. Felly mae nifer o agweddau ar y pwnc hwn wedi cael eu hystyried.

### Allforion

Nid yw dros 70% o wneuthurwyr yn allforio eu cynnyrch y tu allan i'r DU. O blith y rhai sy'n gwneud hynny, fodd bynnag, mae allforion yn cyfrif am bron 20% o'u trosiant. Mae cyfran y gwneuthurwyr sy'n allforio yn uwch yng Ngogledd Iwerddon, gan adlewyrchu cysylltiadau cryf gyda'r farchnad yng Ngweriniaeth Iwerddon a chyda gwasgariad y boblogaeth Wyddelig, yn arbennig yn yr Unol Daleithiau.

### Gwerthiannau manwerthwyr

Gan edrych yn gyntaf ar brynu crefftau gan fanwerthwyr i'w gwerthu ymlaen, roedd 43% o fanwerthwyr yn gwerthu gwaith gan wneuthurwyr tramor, ac roedd y grŵp sengl mwyaf o'r rhain yn dod o gyfandir Ewrop. Fodd bynnag, dim ond cyfran fach iawn o werthiannau manwerthwyr yr oedd gwneuthurwyr tramor yn ei chynrychioli: 6%.

Roedd manwerthwyr yn gwerthu crefftau i gwsmeriaid lleol yn  bennaf. Roedd mwyafrif y gwerthiannau i gwsmeriaid o ardal leol y manwerthwr (58%), a 24% arall o rannau eraill o'u 'gwlad'. Roedd ychydig yn llai na 10% o'r gwerthiannau i gwsmeriaid y tu allan i'r DU.

### Twristiaeth

Gofynnwyd i wneuthurwyr a manwerthwyr i amcangyfrif pwysigrwydd twristiaeth i'w busnes hefyd. (Nid oedd yr arolwg yn gwahaniaethu rhwng twristiaid domestig a thwristiaid rhyngwladol.)

Ymysg y gwneuthurwyr, roedd 43% yn credu bod twristiaeth yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig i'w busnesau. Roedd gwneuthurwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol o ddweud hynny na gwneuthurwyr yn Lloegr.

Roedd twristiaeth yn fwy arwyddocaol i fanwerthwyr: dywedodd dwy ran o dair ohonynt ei bod yn bwysig iawn neu'n eithaf pwysig i'w busnes.

### Canran yr ymatebwyr a aned y tu allan i'r DU

Ganed mwy na 12% o'r ymatebwyr dramor, a'r Unol Daleithiau,  yr Almaen, De Affrica, Gweriniaeth Iwerddon ac India oedd y lleoedd a grybwyllwyd amlaf fel mannau y tu allan i'r DU y ganwyd yr ymatebwyr ynddynt. (Yn ôl Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth roedd 11.5% o boblogaeth y DU wedi'u geni dramor yn 2010.) Felly mae'r sector crefftau ychydig yn fwy amrywiol yn hyn o beth na phoblogaeth y DU yn gyffredinol, a gall gefnogi'r ddadl ynghylch natur gosmopolitan y sector crefftau..

## 4.3 Sut y mae materion cynaliadwyedd yn effeithio ar y sector?

Un maes lle mae'r ddadl rhwng y byd-eang a'r lleol yn codi ei phen yw ym meysydd yr amgylchedd a moeseg. Mae'r dystiolaeth gynyddol o newid yn yr hinsawdd yn fater byd-eang, ond mae atebion lleol (i ryw raddau o leiaf) yn rhan o'r ateb.

Gofynnodd yr arolwg i wneuthurwyr a oeddent wedi newid eu hymarfer yn y tair blynedd diwethaf mewn ymateb i bryderon amgylcheddol  neu foesegol. Nodwyd efallai na fyddai busnesau a sefydlwyd yn wreiddiol gyda'r pryderon hyn mewn cof wedi cael eu hamlygu gan yr arolwg, gan na fyddent wedi newid eu hymarfer, ond yn hytrach wedi parhau â'u harferion da. Fodd bynnag, gan fod y rhan fwyaf o'r busnesau crefftau wedi bod yn masnachu ers peth amser (cyfartaledd o 16 mlynedd), teimlwyd ei bod yn rhesymol eu holi ynghylch newid. Gyda'r amod honno, roedd 31% o wneuthurwyr wedi newid eu hymarfer mewn ymateb i bryderon amgylcheddol. O blith y rheini, roedd mwy na'u hanner yn ceisio defnyddio deunyddiau a oedd yn fwy sensitif i'r amgylchedd neu'n fwy cynaliadwy, ac roedd ychydig yn llai na thraean wedi newid eu prosesau cynhyrchu i sicrhau eu  body n fwy sensitif i'r amgylchedd neu'n fwy cynaliadwy. Roedd un rhan o bump yn defnyddio cyflenwyr lleol mewn ymgais i leihau milltiroedd teithio. Roedd gwneuthurwyr a oedd yn defnyddio tecstilau a gwydr yn fwy tebygol o fod wedi gwneud newidiadau o'r fath na gwneuthurwyr a oedd yn defnyddio deunyddiau eraill, ond cymharol fach oedd y gwahaniaethau.

Ffigur 17 Newidiadau mewn ymarfer amgylcheddol

| Newidiadau mewn ymarfer amgylcheddol | Canran y rhai a newidiodd eu hymarfer |
|---|---|
| Defnyddio deunyddiau mwy amgylcheddol sensitif neu gynaliadwy | 51.5 |
| Defnyddio prosesau cynhyrchu mwy amgylcheddol sensitif neu gynaliadwy | 32.8 |
| Dewis cyflenwyr lleol i leihau milltiroedd cludo nwyddau | 20.3 |
| Dewis cyflenwyr ag arferion sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy | 11.1 |
| Dewis dosbarthwyr/manwerthwyr ag arferion mwy amgylcheddol gynaliadwy | 7.0 |
| Ailgylchu | 4.5 |
| Arall | 15.5 |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Dim ond 14% o wneuthurwyr a ddywedodd eu bod wedi newid eu hymarfer ar sail foesegol.

## 4.4 Newidiadau economaidd diweddar yn y sector

Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae'r economi wedi wynebu'r cyfnod mwyaf cythryblus ers degawdau. Dywedodd Alistair Darling, y Canghellor ar y pryd, yn ystod y wasgfa gredyd fod Prydain yn wynebu'r dirywiad economaidd gwaethaf ers 60 mlynedd. Yn ystod y tair blynedd ers hynny gwelwyd dirwasgiad enbyd ac yna gyfnod o dwf araf iawn, wrth i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat geisio lleihau eu dyledion. Yn ystod y cyfnod hwn, mae nifer o gwmnïau bach wedi cael anhawster i gael benthyciadau gan fanciau. Mae'r rhagolygon ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn dywyll adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gyda phroblemau yn ardal yr ewro yn ychwanegu at yr ansicrwydd.

Mae'r data a drafodwyd yn yr arolwg llenyddiaeth yn awgrymu bod incwm yn gysylltiedig â chrefftau a gynhyrchir gan fusnesau gwneuthurwyr wedi lleihau rhywfaint ers yr arolwg mawr diwethaf yn 2004, er y gallai gwahaniaethau methodolegol rhwng y ddau arolwg esbonio llawer o hyn. Fodd bynnag, ymddengys fod tystiolaeth o gynnydd yn y nifer sy'n gweithio'n rhan amser o gymharu ag arolygon diweddar, er bod y gwneuthurwyr rhan amser hyn yn gwerthu llawer mwy na gwneuthurwyr rhan amser mewn arolygon yn y gorffennol. Mae hyn yn awgrymu y gallant fod yn wneuthurwyr llawn amser yn flaenorol sydd wedi lleihau eu horiau yn sgil anawsterau economaidd, ond damcaniaethol yw hyn. Dywedodd gwneuthurwyr y gwelwyd gostyngiad yng ngwerth mwyafrif o'u sianeli gwerthu, ond roedd y gostyngiadau net fel arfer yn gymharol fach.

Ar y llaw arall, dywedodd manwerthwyr bod eu gwerthiannau wedi aros yn gymharol sefydlog yn nhermau ffigurau net, gyda busnesau sy'n ffynnu yn gwrthbwyso'r rhai sy'n dirywio.

Er gwaethaf yr hinsawdd anodd hon, mae gwneuthurwyr a manwerthwyr yn lled ffyddiog ynghylch y dyfodol, ac mae hynny o bosibl yn syndod.

### Y rhagolygon ar gyfer y dyfodol

Ffigur 18 Gwneuthurwyr – newid disgwyliedig yn y gwerthiannau sy'n gysylltiedig â chrefftau dros y tair blynedd nesaf

| Newid disgwyliedig mewn gwerthiannau'n gysylltiedig â chrefftau | Canran |
|---|---|
| Twf sylweddol | 17.2 |
| Ychydig o dwf | 34.9 |
| Aros yn gyson | 21.4 |
| Ychydig o ostyngiad | 7.6 |
| Gostyngiad sylweddol | 4.6 |
| Ddim yn gwybod | 12.8 |
| Ddim yn berthnasol | 1.5 |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Roedd llawer o wneuthurwyr yn cydnabod y byddai'n rhaid iddynt wneud newidiadau er mwyn addasu i'r hinsawdd economaidd newydd. Datblygu cynhyrchion newydd neu wahanol oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd, gyda 63% yn dweud eu bod yn bwriadu gwneud hyn, 58% yn dweud eu bod am ddod o hyd i farchnadoedd newydd, a 49% yn bwriadu defnyddio deunyddiau newydd.

Gofynnwyd i fanwerthwyr asesu eu rhagolygon busnes am y tair blynedd nesaf, yn gyffredinol a chan ystyried gwerthiannau crefftau yn benodol. Roedd y ddwy set o ffigurau yn gymharol debyg, gyda thua dwy ran o dair yn disgwyl twf cymedrol neu werthiannau cyson.



'Comb Composition' gan Anne Gibbs. Ffotograff gan John Carlano, drwy garedigrwydd yr artist.

# 5. Gwneuthurwyr: Cymru

Roedd methodoleg yr arolwg dros y ffôn wedi'i chynllunio'n benodol i roi samplau digon mawr o wneuthurwyr ar lefel 'gwlad' er mwyn gallu ddadansoddi'r canlyniadau ar wahân. (Roedd nifer y manwerthwyr, yr addysgwyr, yr awduron a'r ysgolheigion a holwyd yn golygu mai dim ond ar lefel y DU yr oedd modd gwneud dadansoddiad ar eu cyfer hwy).

Prin yw'r gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng pedair gwlad y DU. Fodd bynnag, mae rhai mân amrywiadau. Mae'r adran hon yn cymharu ymatebion y 325 o wneuthurwyr yng Nghymru gyda chyfartaledd y DU wedi'i bwysoli ar gyfer rhai o'r cwestiynau a ofynnwyd. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion yn atodiadau'r prif adroddiad.

## 5.1 Proffil demograffig

Y prif ddangosyddion demograffig ar gyfer gwneuthurwyr:

Rhyw: Yng Nghymru roedd 61.5% o wneuthurwyr yn fenywod (68.6% yn y DU)

Oedran: Oedran cyfartalog y gwneuthurwyr yw 51.0 oed.

Ethnigrwydd: Disgrifiodd gwneuthurwyr o Gymru eu hethnigrwydd fel a ganlyn:

- 86.2% Gwyn Prydeinig (o gymharu ag 81.0% yn y DU)
- 8.0% Gwyn Arall

Hunaniaeth genedlaethol: disgrifiodd 52.3% o wneuthurwyr eu hunaniaeth genedlaethol fel Prydeinig, disgrifiodd 28.9% eu hunaniaeth fel Cymreig a 8.0% eu hunaniaeth fel Saesnig


Anabledd: Yng Nghymru, dywedodd 14.2% o wneuthurwyr bod ganddynt ddyslecsia (11.5% yn y DU), a dywedodd 3.1% bod ganddynt anabledd, ac eithrio dyslecsia (4.1% yn y DU).

Iaith: Dywedodd 10.2% o'r ymatebwyr eu bod yn siarad Cymraeg yn rhugl, a dywedodd 22.2% arall eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg. Ymysg y ddau grŵp hyn, roedd 50.5% yn siarad Cymraeg yn y gweithle.

## 5.2 Yr ymatebwyr i'r arolwg

Roedd yr ymatebwyr i'r arolwg dros y ffôn yn dod o bob cwr o Gymru, yn cynnwys Ynys Môn. Roedd clystyrau mwy o ymatebwyr yng Nghaerdydd a De-Orllewin Cymru.

Ffigur 19 Lleoliad yr ymatebwyr i'r arolwg dros y ffôn yng Nghymru




Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

## 5.3 Proffiliau o'r mathau o wneuthurwyr

Yng Nghymru, mae cyfran y 'newidwyr gyrfa' - pobl sydd wedi symud i fod yn grefftwyr o yrfaoedd eraill ond nad oes ganddynt radd mewn celf, crefft neu ddylunio - yn uwch nag yn y DU yn gyffredinol. Yn wir, Cymru yw'r unig wlad lle mae'n cynrychioli'r grŵp mwyaf o blith y pedwar grŵp.

Ffigur 20 Y gyfran o bob math o wneuthurwr

| | | Cymwysterau crefftau | |
|---|---|---|---|
| | | Gradd gyntaf neu ail radd | Cymhwyster arall neu ddim cymhwyster |
| Gwneud crefftau cyfoes fel gyrfa gyntaf | Ie | 'Gyrfawyr' (33.2%) | 'Crefftwyr' (10.2%) |
| | Nage | 'Dychwelwyr' (21.2%) | 'Newidwyr gyrfa' (35.4%) |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

## 5.4 Busnesau gwneuthurwyr

Roedd y pum prif ddeunydd a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr yng Nghymru (caniatawyd mwy nag un ateb) fel a ganlyn:

Ffigur 21  Pump o ddeunyddiau mwyaf cyffredin

| Deunyddiau | Cymru % | Y DU % |
|---|---|---|
| Cerameg | 31.4% | 25.7% (rank 1st) |
| Tecstilau (ac eithrio gwehyddu) | 18.2% | 22.9% (2nd) |
| Gemwaith | 17.2% | 20.0% (3rd) |
| Pren (ac eithrio dodrefn) | 12.0% | 10.7% (5th) |
| Gwydr | 10.5% | 10.3% (6th) |

Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Addysg: Mae gan 54.5% o wneuthurwyr yng Nghymru radd berthnasol (60.8% yn y DU) ac nid oes gan 20.6% unrhyw gymhwyster yn y sector crefftau (15.5% yn y DU)

Oriau a weithiwyd: Roedd gwneuthurwyr yng Nghymru yn treulio 40.5 awr yr wythnos ar weithgareddau'n gysylltiedig â chrefftau ar gyfartaledd, a threuliwyd 27.9 o'r oriau hynny ar ddylunio a gwneud gwrthrychau (Cyfartaledd y DU: 38.9 awr i gyd, gyda 26.7 o oriau'n cael eu treulio ar ddylunio a gwneud).

Y gweithle: Mae 67.7% o wneuthurwyr yng Nghymru yn gweithio o'u cartrefi (65.9% yn y DU)

Statws Busnes: Mae 78.8% o wneuthurwyr yng Nghymru yn unig fasnachwyr (87.7% yn y DU)


Mae gwneuthurwyr yng Nghymru ychydig yn llai tebygol o werthu drwy sianeli ar lein.

Roedd gwneuthurwyr yng Nghymru hefyd yn fwy tebygol o fod wedi troi at y sector crefftau fel ail yrfa (57% o gymharu â chyfartaledd o 50% yn y DU).

Incwm crynswth cyfartalog gwneuthurwyr yng Nghymru oedd £21,177. Roedd £18,594 o hyn yn incwm a oedd yn gysylltiedig â chrefftau. Yn ei dro, roedd 79% o'r incwm hwn yn dod o werthu crefftau cyfoes.

Roedd gwneuthurwyr yn cael incwm o £2,583 ar gyfartaledd o weithgareddau nad oeddent yn gysylltiedig â chrefftau fel gwaith rhan amser neu bensiynau.

Ffigur 22  Cymru: Incwm crynswth cyfartalog gwneuthurwyr, 2010




Ffynhonnell: BOP Consulting (2011)

Amcangyfrifwyd mai'r elw net cyfartalog ar gyfer gwneuthurwr yng Nghymru oedd £6,194 (y DU: £6,231).

## 5.5 Materion ehangach yn y sector crefftau

Roedd agweddau eraill ar ymchwil i'r sector crefftau yn cynnwys:

Y defnydd o dechnoleg ddigidol mewn ymarfer a/neu wrth gynhyrchu: Yng Nghymru, roedd 57.2% yn gwneud hynny ( 56.5% yn y DU), gan amlaf er mwyn dylunio cynhyrchion.

Ydych chi wedi newid eich ymarfer mewn ymateb i bryderon amgylcheddol? Roedd 34.8% o wneuthurwyr yng Nghymru wedi gwneud hynny (31.4% yn y DU). Y newid mwyaf cyffredin oedd defnyddio deunyddiau mwy amgylcheddol gynaliadwy neu amgylcheddol sensitif.

Ydych chi'n allforio eich cynhyrchion? Roedd 27.7% o wneuthurwyr yng Nghymru wedi allforio eu gwaith yn 2010 (28.4% yn y DU)

Defnyddio cyrff cyhoeddus: Roedd 20.6% o wneuthurwyr yng Nghymru wedi defnyddio gwasanaethau Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2010, ac roedd 8.9% wedi defnyddio gwasanaethau'r Cyngor Crefftau.

Rhagolygon ar gyfer busnesau: At ei gilydd, roedd 48.6% o wneuthurwyr yn disgwyl i'w gwerthiannau crefftau gynyddu naill a'i sylweddol neu ychydig dros y tair blynedd nesaf (52.1% yn y DU).